## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â recordio deunydd sain i fodloni gofynion creadigol. Mae'n debyg y bydd yn berthnasol i gerddoriaeth ond fe all fod yn berthnasol i ffynonellau sain eraill. Mae'n debyg y byddwch yn ymwneud â'r safon hon mewn stiwdio recordio, ystafell raglennu, gorsaf radio neu stiwdio cymysgu ond fe all fod yn berthnasol i leoliadau eraill. Mae'n debygol y bydd, ond nid ydyw o reidrwydd, yn ymdrin â recordiadau lle bydd angen sawl cynnig.

Mae'r safon yn ymwneud â gwirio gosodiad cyfarpar recordio, cyfathrebu gyda pherfformwyr, monitro recordiadau a gwneud addasiadau, llunio taflenni traciau a labelu a chadw ffeiliau.

Mae'r safon hon ar gyfer peirianwyr recordio, peirianwyr sain a rhaglenwyr sy'n recordio deunydd sain i fodloni gofynion creadigol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adalw rhaglenni ac adfer unrhyw gynnwys sydd wedi'i recordio eisoes ac sy'n ofynnol ar gyfer recordiadau
2. gwirio bod y cyfarpar recordio wedi'i osod ac yn gweithio fel y disgwylir iddo wneud
3. gwirio y caiff cyfarpar recordio ei addasu i gyd-fynd â'r amgylchedd y byddwch yn recordio ynddo
4. gofalu bod yr holl berfformwyr wedi derbyn cyfarwyddyd am yr hyn ddisgwylir ganddyn nhw

1. gofalu y caiff yr holl ffynonellau sain eu recordio
2. monitro'r recordiad a gwneud unrhyw addasiadau fyddai'n gwella'r ansawdd
3. gwirio bod lefelau signal y deunydd sain yn bodloni'r paramedrau
4. cydbwyso traciau arwahanol sydd wedi'u recordio er mwyn gwella eglurder yr holl lefelau chwarae
5. defnyddio peirianwaith, dewislenni a pharamedrau yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
6. datrys unrhyw broblemau gyda'r cyfarpar, y gadwyn recordio, perfformwyr ac allbynnau, rydych yn gyfrifol amdanyn nhw, ar unwaith
7. cyfeirio unrhyw broblemau na allwch eu datrys i'r bobl briodol heb oedi
8. cyfathrebu gyda'r perfformwyr ynghylch cynnydd ar adegau priodol
9. cadw a throsglwyddo recordiadau yn eu cyflwr gwreiddiol heb eu diraddio, heb achosi problemau amseru nac ychwaith heb ddirywio'r ansawdd
10.

cadw ac archifo recordiadau a ffeiliau wrth gefn yn unol â gweithdrefnau diogelwch data cyfundrefnol

11.

llunio taflenni traciau eglur a manwl o'r perfformiadau sydd wedi'u recordio

12.

labelu'r ffeiliau sydd wedi'u cwblhau yn unol â'r gweithdrefnau cyfundrefnol

13.

cydymffurfio gydag egwyddorion iechyd a diogelwch o ran gwrando'n ddiogel bob amser

14.

ailosod, diffodd a thacluso cyfarpar recordio pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i adalw deunyddiau o'r archif ac adfer recordiadau wedi'u cadw ar ddyfais recordio aml-drac digidol neu analog
2. sut i gysylltu a llwybro offerynnau i systemau recordio digidol neu analog drwy drawfyrddau recordio neu weithfannau sain digidol (DAWs)
3. y gadwyn recordio a lefelau signal ar gyfer signalau sain
4. gwybodaeth am ansawdd a gofynion creadigol
5. defnydd cydbwyso lefelau ar ddeunydd sydd wedi'i recordio
6. egwyddorion sylfaenol trawfyrddau recordio a sut i'w defnyddio
7. gofynion perfformwyr i fedru clywed eu hunain a sut i gyflawni hyn
8. gwahanol ofynion ac ymarfer wrth recordio cerddoriaeth a dialog
9. sut i bennu pa mor brofiadol ydy'r perfformwyr dan sylw mewn stiwdio
10. sut a phryd i gyfathrebu gyda pherfformwyr
11. y gwahaniaethau o ran amodau ac ymarfer recordio rhwng darllediadau tu allan, sain fyw a recordio mewn stiwdio
12. gofod acwstig a nodweddion lleoliad ynghyd â sut i'w rheoli
13. pwysigrwydd cadw cynnwys sain gwreiddiol
14. y gwahaniaethau rhwng recordio cynnwys byw a phan mae sawl cynnig
15. ymarfer da o ran y broses recordio ar ddyfeisiau recordio digidol neu analog
16. sut i ddefnyddio peirianwaith, dewislenni a pharamedrau perthnasol i fudo a throsglwyddo lleoliad sain, mewnforio lleoliad sain a chadw ffeiliau sain
17. defnydd cywir o systemau labelu, enw'r rheolwyr a'r teitl a thraciau gwaith i'w golygu gan gynnwys SPARS
18. sut i gadw cynnwys wedi'i recordio ynghyd â ffeiliau DAW yn eu cyflwr gwreiddiol gan ddefnyddio BWAV, WAV, AIFF, (ffurfiau ffeiliau) DVD, DVD RAM, Cadi HD digidol cludadwy, TÂP, DAT, CD a HD Allanol
19. sut i archifo deunydd wedi'i recordio
20. egwyddorion iechyd a diogelwch o ran gwrando'n ddiogel gan gynnwys trefniadau diogelu i atal colli clyw

Recordio deunydd sain i fodloni gofynion creadigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative and Cultural Skills |
| **RCU gwreiddiol** | CCSMT8 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Peirianwyr Meistroli, Peirianwyr Recordio, Cynhyrchwyr Recordio, Peirianwyr Cymysgu, Peirianwyr Cynorthwyol, Gweithredwyr Tapiau, Rhaglenwyr |
| **Cyfres/Set** | Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | Recordio; Deunydd sain; Darllediad tu allan; Sain fyw; Cerddoriaeth; Sain; Recordio Sain; Technoleg Cerddoriaeth |